



Astudiaeth
Achos

Corey Jones

Ysgol

Ysgol Uwchradd Gatholig Sant
Richard Gwyn
Albert Ave, Y Fflint
CH6 5JC

Astudiodd Corey Mathemateg Bellach UG gyda FMSP yn 2016/17. Astudiodd FP1, FP2 a S2 yn BI 12, ac mae bellach yn mynd i flwyddyn 13 i astudio gweddill y Safon Uwch. Mae hefyd yn astudio ffiseg, cemeg a mathemateg.

Sut mae'ch teulu'n teimlo am eich penderfyniad i astudio gyda FMSP Cymru?

Roedd fy nheulu'n falch gyda mi yn cymryd Mathemateg Bellach, gan eu bod yn gwybod y byddai'n help gyda'r cyfeiriad yr oeddwn am fynd. Fe wnaeth fy mrawd y pwnc hefyd, felly rhoddodd gyngor a chymorth i mi pan oeddwn yn cael trafferth gyda rhai cwestiynau.

Sut y cyflwynwyd yr hyfforddiant?

Ar ôl ysgol gyda thiwtor wyneb yn wyneb, yn Ysgol Uwchradd Y Fflint

Sut fyddech chi'n gwerthuso'ch profiad cyffredinol o gymryd Mathemateg Bellach drwy'r FMSP?

Roeddwn yn ei weld yn hynod ddiddorol, gan gymryd cysyniadau rwyf wedi eu dysgu ac yn dysgu yn y Mathemateg Safon Uwch a'u defnyddio mewn gwahanol ffyrdd. Roedd rhai o'r cwestiynau yn anodd, yn enwedig y rhai yn y modiwl ystadegaeth (ee cywiro cysondeb), ond roedd ymarfer gyda chyn-bapurau a help gan fy nhiwtor yn fy helpu i ddeall sut i weithio drwyddynt

Beth oedd y rhan mwyaf pleserus a gawsoch fel rhan o astudio drwy'r FMSP?

Fe wnes wir fwynhau gweithio gyda fy ffrindiau ar rai cwestiynau, gan ein bod ni'n bownsio syniadau oddi ar ein gilydd i ddeall beth oedd y cwestiynau. Hefyd, roedd sesiynau FMSP ym Mhrifysgol Bangor wedi helpu i roi gwahanol bynciau i gyd-destun mwy (roeddwn hefyd yn mwynhau taith allan am y diwrnod).

Beth ydych chi'n ei feddwl am y llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â Mathemateg Bellach? A oedd yn wahanol i lefelau A eraill o gwbl a sut?

Byddwn yn dweud bod y llwyth gwaith yn debyg i'r rhan fwyaf o bynciau Safon Uwch ac ychydig yn fwy na'r Safon Uwch Mathemateg arferol, gan fod rhannau o Fathemateg Bellach yn defnyddio pynciau o C3 a C4 nad oeddem wedi eu gwneud eto yn A2. Fodd bynnag, fe wnaeth gweithio a bod yn gyson yn adolygu pob modiwl helpu i oresgyn y rhwystrau hynny.

Sut mae'ch ffrindiau'n teimlo am eich penderfyniad i astudio Mathemateg Bellach?

Rwy'n credu bod fy ffrindiau'n disgwyl i mi ei gymryd, ac roedd rhai'n ymddangos yn ddrislyd ynghylch pam y byddai rhywun eisiau cymaint o fathemateg. Fodd bynnag, mae dau o'm ffrindiau hefyd yn ei gymryd. Rydw i wedi cwrdd ag ychydig o ffrindiau newydd, yn enwedig yn Ysgol Uwchradd y Fflint yn ystod fy ngwersi Mathemateg Bellach.

A fyddech chi'n annog eraill i astudio Mathemateg Bellach?

Rwy'n credu bod angen o leiaf ychydig o angerdd ar gyfer mathemateg i fynd drwyddi a'i fwynhau, ond rwy'n credu y gall unrhyw un ymdopi â'r hyfforddiant os ydynt yn barod i fod yn gyson. Hefyd, disgwylwch gael pethau yn anghywir, gan ei fod yn digwydd i bawb yn gyson! Bydd bod yn benderfynol i weithio ar y materion a gwella'ch gallu yn eich helpu i lwyddo mewn Mathemateg Bellach